

## DEWI SANT, sefydlydd ac abad-escob cyntaf Tyddewi a nawddsant Cymru

**Enw:** Dewi Sant  
**Rhiant:** Non  
**Rhiant:** Sant  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** sefydlydd ac abad-escob cyntaf Tyddewi a nawddsant Cymru  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Jones

Ni wyddys ei gyfnod yn fanwl ond tebyg iddo farw tua diwedd y 6ed ganrif; yn *Annales Cambriae* cofnodir ei farwolaeth s.a. 601 ond dichon fod dyddiad *Chronicum Scotorum* - 588 - yn nes i'r gwir. Os cywir y traddodiad a gofnodwyd gan **Rygyfarch** iddo farw ar ddydd Mawrth, hwyrach mai 589 - dyddiad y cofnod yn *Annals of Inisfallen* - yw'r dyddiad cywir. Un o fynaich dylanwadol y 6ed ganrif oedd, ac awgryma'i gyfenw 'Dyfrwr' ('aquaticus') ei fod yn perthyn i'r blaid honno o fynaich a ymorchestai yn llymder eu bywyd asetig ac a elwid 'aquatici,' 'y dyfrwyr.' Enwir ef gyda **Chadog** a **Gildas** yng 'Nghatalog Seintiau Iwerddon' (c. 730); ac yn 'The Martyrology of Oengus' (c. 800) nodir 1 Mawrth fel ei ddydd gwyl. Cysylltir eglwysi â'i enw yn Neheudir Cymru, Llydaw, Cernyw, a deorllewin Lloegr. O'r eglwysi a gyflwynwyd iddo yng Nghymru (a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u sefydlu ganddo, y mae'n debyg) nid oes yr un i'r gogledd o linell wedi'i thynnu o aber afon Wyre hyd y Clas-ar-Wy. Tebyg fod dosbarthiad ei eglwysi yn adlewyrchu'r maes y gweithiodd ynddo, ac awgryma eu lleoliad daearyddol ei fod ef a'i ddilynwyr yn cynrychioli mudiad mynachaid mwy eithafol a diwygiadol nag eiddo **Illtud**, **Cadog**, a **Gildas**, ac iddo efengyleiddio mewn manau y tu allan i gylchoedd gweithgarwch ei ragflaenwyr. Cyfeirir ato yn 'Arymes Prydein Vawr' (*Facsimile and Text of the Book of Taliesin*, 13) yn gynnar yn y 10fed ganrif fel arweinydd ysbrydol y Cymry yn erbyn y Saeson. Ysgrifennwyd ei Fuchedd gan **Rygyfarch ap Sulien**, escob Tyddewi (bu farw 1099), c. 1090, a hi yw ffnhonnell pob 'hanes' am ei fywyd. Dywed **Rhygyfarch** iddo ddefnyddio hen gofnodion yn Nhyddewi, a rhai ohonynt yn llaw'r sant, ond cymysgedd o lën-gwerin, traddodiadau llafar, a rhai ffeithiau hanesyddol yw cynnwys y Fuchedd. Dywedir ynddi fod Dewi yn fab i Sant, brenin Ceredigion, a Non (Nonnita yn y Lladin), iddo gael ei addysgu gan Beulin yn Henfynyw (ger Aberaeron), iddo sefydlu llawer o fynachlogydd, iddo orchfygu pennaeth Gwyddelig a elwid **Boya**, ger Tyddewi; a disgrifir bywyd caled Dewi a'i gydffynaich, y gwyrthiau a wnaeth, ei daith i Gaersalem gyda **Theilo** a **Phadarn**, ei waith mewn dwy senedd (yn Llanddewi-brefi a 'Lucus Victoriae') yn erbyn heresi Pelagius, a'r cwynfan cyffredinol oherwydd ei farw. Yn amser y pab Calixtus II (1119-24) cyhoeddwyd Dewi'n sant a'i gynnwys yng nghalendr yr Eglwys Orllewinol. Canodd **Gwynfardd Brycheiniog** awdl iddo, sy'n cynnwys rhai traddodiadau na cheir ym Muchedd **Rhygyfarch**. Seiliwyd Buchedd Ddewi gan **Gerallt Gymro** (*Opera*, iii, 377-404) ar waith **Rhygyfarch**; felly hefyd ei Fuchedd gan John o Tynemouth (c. 1290 - 1350). Cyfieithiad a chyfaddasiad o waith **Rhygyfarch** yw'r Fuchedd Gymraeg hefyd; ceir y copi cynharaf yn 'Llyfr Ancr Llanddewi-frefi' (1346). Canwyd cywyddau i Ddewi gan lawer bardd, e.e. **Iolo Goch**, **Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd**, **Dafydd Llwyd ap Llywelyn**, Rhisiart ap Rhys, a **Lewys Glyn Cothi**. Yn 1398 cyhoeddwyd gorchymyn gan yr archesgob Arundel i ddathlu ei wyl drwy'r holl archesgobaeth, ac yn 1415 gan yr archesgob Chicheley i'w dathlu 'gydag arweiniad y côr a naw llith.' Rhoes Calixtus II faint bendith gyfartal ag un daith i Rufain i ddwy i Dyddewi. Ar hyd yr oesoedd bu Tyddewi'n gyrchfan pelerinion, ond ar ôl y Diwygiad Protestannaidd peidiwyd â dathlu Gŵyl Ddewi fel gwyl grefyddol. O'i hatgyfodi yn y 18fed ganrif a'i mabwysiadu gan gymdeithasau gwladgarol, daeth yn wyl genedlaethol y Cymry.

### Awdur

**Yr Athro Thomas Jones**

### Ffynonellau

*Vita Sancti David per Ricemarchum* (Stow-on-the-Wold 1914)

*Y Cymmrodor*, xxiv, 4-28

Rhygyfarch, Wade-Evans, *Life of St. David* (London 1923)

*Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Caerdydd 1944), 150

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), i, 152

S. M. Harris, *Saint David in the Liturgy* (Caerdydd 1940)

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*ii, 285

*Y Geninen*, xli, 79

Henry Lewis (gol.), *Hen Gerddi Crefyddol* (Caerdydd 1931), 43

*Antiquity*, xix, 175 ff.

*Nova legenda Anglie as collected by John of Tynemouth, John Capgrave, and others, and first printed, with new lives, now re-edited with fresh material from MS and printed sources by C. Horstman* (1901), i, 254

Silas M. Harris, 'Was St. David ever Canonized?' *Wales*, 1944, 30-2

### Darllen Pellach

Martin Crampin, *Depicting St David* (Talybont 2020)

James Ambrose Story, *The life and legends of St. David, the patron saint of Wales*(Carnarvon 1893)

*The life of S. David, Archbishop of Menevia*(London 1870)

*A Poem pindarique, in honour of the most heroic and magnanimous champion, St. David, and all true Britains*

Archifau LIGC: The Red Book of Talgarth: Llanstephan MS 27C

Erthygl Wicipedia: Dewi

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 203782126

Wikidata: Q331697

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, T., (1953). DEWI SANT, sefydlydd ac abad-escob cyntaf Tyddewi a nawddsant Cymru. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DEWI-SAN-0600>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Wedi gipio gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government